Yn ystod y mis bu Noson Goffi Adran yr Urdd yr ysgol a chafwyd cefnogaeth dda y rhieni a ffrindiau. Mrs Llewelyn Mason, Cwmbwa a wahoddwyd i agor y noson a chyflwynwyd hi gan Mr R.T.Evans. Cyfrannodd Mrs Mason yn hael iawn i'r drysorfa. Cyflwynwyd blodau iddi gan Melissa Randall. Cliriwyd y stondinau'n fuan iawn a gwnaed elw sylweddol i'r adran.

Bu plant yr ysgol i gyd i lawr yng Ngholeg y Llyfrgellwyr yn Llanbadarn yn gwrando ar Mr T.Llew Jones, Mr H.E.Todd,awdur llyfrau Bobby Brewster, a Mr John Ryan, awdur Capten Pugwash. Treuliwyd amser diddorol yn eu cwmni.

Yn y Gala Nofio i Ysgolion Aberystwyth a'r Cylch gwnaeth y plant yn dda iawn ac enillwyd tystysgrifau gan amryw ohonynt. Ein llongyfarchion iddynt ar eu llwyddiant.

Bydd Mrs M.A.Morgan, sydd ar staff y gegin, yn ymddeol ddiwedd y tymor wedi blynyddoedd o wasanaeth i'r Pwyllgor Addysg. Bu Mrs Morgan yn coginio yn ysgol Ysbyty Ystwyth am flynyddoedd lawer a rhoddodd ddeg mlynedd o wasanaeth yn ysgol y Penrhyn. Dymunwn yn dda iddi, ond gwyddom y cawn ein cyfle yn ddiweddarach i ddiolch iddi am ei ffyddlondeb.

Dymunwn Nadolig Hapus iawn a Blwyddyn Newydd Ddedwydd i holl drigolion y Fro.

Rhagfyr 1979